***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 27/02/2021. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details)*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1609

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020

## RHAN 7

## Gorfodi

### Pwerau sy'n ymwneud â digwyddiadau

**31.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod person ("P")—

(a) yn cyflawni trosedd o dan reoliad 39(2);

(b) yn ymwneud â threfnu digwyddiad yn groes i (neu y mae'r swyddog gorfodaeth yn ystyried ei fod yn debygol o fod yn groes i) baragraff 4 o Atodlen 1, paragraff 4 o Atodlen 2, paragraff 4 o Atodlen 3 neu baragraff 4 o Atodlen 4.

(2) Caiff y swyddog gorfodaeth—

(a) cyfarwyddo P i ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau y mae'r swyddog yn ystyried eu bod yn angenrheidiol er mwyn stopio'r digwyddiad;

(b) symud P o leoliad y digwyddiad;

(c) cyfarwyddo unrhyw berson i ymadael â'r digwyddiad;

(d) symud unrhyw berson o'r digwyddiad;

(e) pan na fo'r digwyddiad wedi dechrau—

(i) cyfarwyddo P i ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau y mae'r swyddog yn ystyried eu bod yn angenrheidiol er mwyn atal y digwyddiad rhag digwydd;

(ii) symud P o leoliad arfaethedig y digwyddiad.

(3) Pan fo gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod person ("P") yn ymwneud â threfnu digwyddiad sydd wedi ei awdurdodi o dan baragraff 5 o Atodlen 1, paragraff 5 o Atodlen 2, paragraff 5 o Atodlen 3 neu baragraff 5 o Atodlen 4 y mae'r swyddog yn ystyried ei fod yn cael ei gynnal yn groes i ofyniad, cyfyngiad neu amod arall a bennir mewn perthynas â'r awdurdodiad, caiff y swyddog—

(a) cyfarwyddo P i ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau y mae'r swyddog yn ystyried eu bod yn angenrheidiol er mwyn sicrhau cydymffurfedd â'r gofyniad, y cyfyngiad neu'r amod arall;

(b) cyfarwyddo P i ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau y mae'r swyddog yn ystyried eu bod yn angenrheidiol er mwyn stopio'r digwyddiad;

(c) symud P o leoliad y digwyddiad;

(d) cyfarwyddo unrhyw berson i ymadael â'r digwyddiad;

(e) symud unrhyw berson o'r digwyddiad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 31 mewn grym ar 20.12.2020 (fel y diwygiwyd gan O.S. 2020/1610, rhl. 2(2)), gweler **rhl. 1(3)**

**Statws**

Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 27/02/2021. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**

Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.